# Adderlaide

***Stori'r Wiber***

Gan Sarah Hancock

Gan gyrlio ei chorff brown â phatrwm igam-ogam yn dynn, mae Adderlaide yn claddu ei hun yng nghysgod oerbraf coed y coetir. Cyn bo hir, bydd ei phrynhawn heddychlon yn cael ei chwalu gan sŵn esgidiau'n troedio'n drwm, camerâu'n clicio a bodau dynol yn clebran, i gyd yn awyddus i gael eu llun. Mae Adderlaide wedi dod i arfer â hyn. Gan amlaf yn y bore, pan fydd yr haul ar ei anterth yn yr awyr, bydd y bodau dynol yn heidio i'r coetiroedd am un peth ac un peth yn unig – cael cipolwg ar Adderlaide.

Yn union fel y disgwyl, mae Adderlaide yn teimlo'r ddaear yn dechrau dirgrynu. Mae hi'n tynhau ei chwrl, gan ddefnyddio ei chuddwisg i guddio ei hun yn berffaith o fewn isdyfiant y llwyni. Yma, mae hi'n ddigon agos i glywed beth mae'r bodau dynol yn ei ddweud o'u mwmian a'u rhochian, ond yn ddigon pell i ffwrdd i allu dianc yn gyflym os byddan nhw'n dod tuag ati. Mae'r bodau dynol yn bustachu ac yn stompio i mewn i'r coetir.

"Dw i'n credu y bydd un fan hyn yn rhywle," mae dyn byrdew canol oed yn gweiddi, gan bwyntio tuag at y glaswelltiroedd, gyda'i gamera'n siglo o amgylch ei wddf.

Mae'r grŵp yn dechrau gwthio a phrocio'r glaswellt gerllaw, gan wthio eu trwynau siâp dynol i mewn i'r glaswellt i gael golwg agosach. Mae Adderlaide yn parhau i fod yn ddiogel yn ei gwylfa gudd. Ers blynyddoedd mae hi wedi llwyddo i sleifio a llithro o le i le, heb gael ei chanfod, ond yn ddiweddar mae pethau wedi mynd ychydig yn fwy anodd.

"Bydd yn ofalus, cariad," mae menyw gwallt golau'n dweud, "fyddech chi ddim eisiau iddi eich brathu chi."

Mae Adderlaide yn ochneidio. Mae hi'n gwybod bod y fenyw'n cyfeirio ati hi. Bob wythnos, mae mwy a mwy o bobl yn mynd i'r un man yn y coetir yn y gobaith y byddan nhw'n gweld gwiber beryglus! Dechreuodd y cyfan ychydig fisoedd yn ôl, pan oedd Adderlaide yn mwynhau torheulo yn yr haul cynnes braf. Ar ôl bwydo ar bryd o fwyd siâp cnofil, roedd angen pelydrau clyd yr haul arni i helpu i gynhesu ei chorff gwaed oer. Wrth iddi amsugno'r heulwen, ei llygaid ar gau, gan fwynhau'r amgylchedd tawel, cafodd ei deffro gan lens camera mawr, du yn gwthio i mewn i'w hwyneb. Mewn panig, gwibiodd i ffwrdd mor gyflym ag y gallai, gan glywed dim ond sŵn cliciau uchel, traed trwm a lludw gwyn llachar yn dilyn o'r tu ôl.

"Dw i ddim yn mynd adre nes inni ddod o hyd i un," mae llais yn galw. "Dywedodd Steve ei fod wedi gweld un fan hyn yr wythnos diwethaf. Postiodd e'r llun ar Facebook."

Roedd hyn yn wir. Cafodd Adderlaide ei gweld eto’r wythnos diwethaf, ond nid trwy ddewis. Po fwyaf nifer y bodau dynol sy'n tyrru yma gyda'u camerâu, y mwyaf anodd mae hi i aros yn gudd. Ar un adeg roedd hi’n rhydd i lithro lle roedd hi'n dewis, ond nawr mae'n rhaid iddi gadw proffil isel.

"Efallai y bydd yn dod allan a'n gweld ni os ydyn ni’n aros yn amyneddgar, bach," mae’r fenyw gwallt golau yn dweud.

Twt lol! Y peth olaf y mae Adderlaide eisiau ei wneud yw llithro i gyfeiriad bod dynol. Iddi hi, maen nhw'n fawr ac yn swnllyd.

"Efallai y bydd hyd yn oed yn gwneud dawns neidr i ni, fel y gwelwch chi ar y teledu," mae’r dyn yn chwerthin.

Am rwtsh! Mae Adderlaide yn rholio ei llygaid coch. O wrando ar fodau dynol yn siarad lol â'i gilydd, mae hi wedi sylweddoli nad ydyn nhw'n gwybod llawer iawn am nadroedd. Yr wythnos diwethaf, roedd un dyn gwirion yn chwilio am wyau mewn ymgais i’w thracio hi. Roedd yn aflwyddiannus wrth gwrs, o ystyried bod Adderlaide yn rhoi genedigaeth i nadroedd ifanc byw.

"Dewch allan, dewch allan, ble bynnag rydych chi," mae llais bach yn gweiddi o'r tu ôl iddi.

Mae Adderlaide yn tynnu ei hun hyd yn oed yn dynnach. Yn aml mae hi wedi meddwl am godi ei chynffon neu'i phen o'r isdyfiant ac yn sefyll i'r bodau dynol gael eu lluniau. Weithiau mae hi wedi meddwl am lithro dros eu traed fel eu bod nhw'n cael llun da, ond fyddai hi byth yn gwneud y fath beth. Mae Adderlaide yn swil, yn dawel ac yn ddiymhongar. Mae'r syniad o sefyll ar gyfer ffotograffau yn gwneud iddi deimlo dan straen yn syth. Dyw hi ddim yn hoffi bod yn destun sylw ac mae'n well ganddi breifatrwydd ei choetir. Yn hytrach, dyma hi, yn ‘selebriti’ lleol i'r bodau dynol cyndyn hyn ac yn methu gwneud unrhyw beth am y peth.

Yn sydyn, mae sylw Adderlaide yn cael ei droi at ffon yn torri’n glec yn agos iawn ati. Yn ddigyffro, mae hi'n codi ei phen i weld pedair troed lai yn sleifio trwy'r isdyfiant. Mae Adderlaide yn parhau'n llonydd, gan obeithio y bydd ei chuddwisg yn ei chadw hi'n ddiogel.

"Oeddech chi'n gwybod, pe baech chi'n cael eich brathu gan Wiber, byddai'ch holl freichiau a'ch aelodau yn mynd yn ddideimlad a byddai'ch bysedd yn cwympo bant," mae'r bachgen â’r traed bach yn dweud. "Dyna ddywedodd Al wrtha i yn yr ysgol."

"Fydden nhw? Dw i’n credu mai dyna sy'n digwydd pan fyddwch chi'n cael eich gwenwyno," mae’r llall yn ateb.

Mae Adderlaide yn ochneidio eto. Mae’n wir bod ei dannedd yn gallu bod yn beryglus, ond fyddai hi ddim yn gwastraffu ei gwenwyn gwerthfawr ar fodau dynol.

“Ie! Clywais i fod hyd yn oed cyffwrdd â'i chroen yn gallu eich lladd chi," mae’r bachgen yn dweud, wrth iddo lusgo cangen wedi cwympo ar hyd y ddaear.

Dyw hynny ddim yn wir o gwbl! Mae Adderlaide yn clywed y camsyniad hwn drwy'r amser.

"Ie, mwy na thebyg mae un yn ein gwylio ni nawr," mae'r bachgen yn dweud wrth edrych o gwmpas.

Gwir.

"Ac ar unrhyw adeg, mae'n mynd i neidio allan a’n brathu ni!" mae’r bachgen ifanc arall yn dweud, gan wneud i'w ffrind sgrechian a neidio.

Ddim yn wir! Ar yr eiliad hwn, mae Adderlaide yn meddwl tybed a ddylai hi neidio allan a dychryn y ddau i ffwrdd, ond dyw hynny ddim yn ei natur hi. Mae ei phersonoliaeth swil a thawedog yn ei chadw hi'n gudd yn niogelwch ei man dirgel.

"Dw i wedi dod o hyd iddi!" mae llais cyffrous yn gweiddi o ochr arall y glaswellt.

Mae'r ddaear yn rhynnu ac yn crynu wrth i'r haid o fodau dynol rasio i'r un lle.

"Codwch hi!" mae un bachgen ifanc yn gweiddi.

"Na, peidiwch!" mae’r fenyw gwallt golau’n dweud yn nerfus, "Efallai y bydd yn eich lladd chi!"

Wrth wylio'n astud o'i gwylfa, mae Adderlaide yn drysu o ran beth maen nhw wedi'i ddarganfod. Beth bynnag yw e, mae’n gobeithio y bydd yn rhoi digon o amser iddi sleifio i ffwrdd, yn ddyfnach i breifatrwydd yr isdyfiant.

"Rho’r ffon i mi," mae’r dyn canol oed yn gorchymyn, "a byddwch yn barod gyda’ch camerâu!"

Mae'r dyn sydd bellach yn dal y gangen oedd wedi cwympo yn dechrau reslo ymhlith y glaswellt tal.

"Sefwch yn ôl," mae'n gweiddi, wrth i'r bodau dynol eraill baratoi i dynnu eu lluniau yn llawn cyffro.

Yn araf mae'r dyn yn llusgo'r ffon yn ôl ac ymlaen, mewn ymgais i hel rhywbeth o'r isdyfiant. Ar ôl ychydig eiliadau, mae’n bachu ei ysglyfaeth. Mae'n tynnu’r gangen tuag ato, i ddatgelu rhywbeth yn hongian o'r pen.

“Ych!” mae’r bachgen ifanc yn dweud, "Mae hynny'n ffiaidd!"

Mae Adderlaide yn teimlo bod ei hwyneb yn cochi, wrth i don o embaras lifo trwy ei chorff saith deg centimetr o hyd. Dyw hi ddim yn gallu credu ei llygaid.

“Beth yw e?” mae'r fenyw yn ebychu.

"Mae'n groen neidr," atebodd y dyn, "mae’n edrych fel ei fod wedi cael ei fwrw o Wiber."

Nid yn unig y mae'r bodau dynol wedi gwahodd eu hunain i'w chartref, ond nawr maen nhw'n chwifio ei hen groen o gwmpas i bawb ei weld. Mae'r embaras llwyr yn gwneud i Adderlaide ymgilio hyd yn oed ymhellach, wrth iddi ostwng ei phen mewn cywilydd. Roedd hyn yn rhywbeth preifat, rhywbeth iddi hi yn unig.

“Ych! Mae'n edrych fel estron," mae un o'r bechgyn yn gweiddi, wrth iddo dynnu llun ar ei ffôn.

"Co," mae'r wraig yn dweud, "gad i fi ei ddal. Tynna lun ohona i gydag e, cariad."

Dyw Adderlaide ddim yn gallu dioddef gwrando mwyach. Er gwaethaf ei chywilydd yn wyneb diddordeb y bodau dynol yn ei chroen wedi bwrw, mae hyn wedi rhoi cyfle da iddi lithro i ffwrdd. Wrth iddyn nhw ei chwifio o gwmpas, mae Adderlaide yn dadrolio ei hun yn llechwraidd, gan gymryd gofal i beidio â gwneud sŵn. Mae hi'n dechrau llithro a gwau ei chorff trwy'r isdyfiant trwchus, nes iddi gyrraedd ardal dywyll, gysgodol.

Mae Adderlaide yn ochneidio. Nid dyma sut roedd hi'n bwriadu treulio ei bore. Bydd hi'n aros yma, gan guddio yn y cysgodion, nes bod y bodau dynol wedi diflasu ar chwilio am eu neidr. Mae hi'n edrych i fyny ar y cylch bach glas, fel ffenest do yn y llwyni trwchus, ac yn gobeithio y bydd ei bywyd yn dod yn breifat unwaith eto.